

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020.

Mark Drakeford
Prif Weinidog Cymru

22 Hydref 2020

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau") a'r Rheoliadau diwygio dilynol, ac yn gwneud darpariaeth newydd am y cyfyngiadau a'r gofynion sy'n angenrheidiol i ddiogelu yn erbyn y risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o'r coronafeirws.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys y darperir ar ei chyfer yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau bellach wedi'i penodi yn y Rheoliadau hyn yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad presennol a achosir gan y coronafeirws.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys 'darpariaeth fachlud' sy'n golygu y byddant yn dod i ben ar ddiwedd 8 Tachwedd 2020.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Er bod y Rheoliadau yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan y Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae'r Llywodraeth yn credu bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir yr ymyrraeth gan fod nod dilys i'r ymyrraeth honno, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth hefyd yn credu bod y Rheoliadau yn gymesur.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cyffwrdd ag Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo).

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os yw hynny'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid i bob cyfyngiad a gofyniad o'r fath gael eu cyfiawnhau ar y sail bod iddynt nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Mae angen i unrhyw ymyrraeth yn yr hawliau hyn hefyd gael ei gydbwysu yn erbyn rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae gweithredu'r cyfyngiadau cenedlaethol newydd am gyfnod cyfyngedig o 17 diwrnod o dan y Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad cynyddol y coronafeirws dros yr wythnosau diwethaf. Mae'n cydbwysu'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n dal i fod yn gymesur â'r angen i

leihau'r cynnydd yng nghyfradd drosglwyddo'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf 1984.

Mae Deddf 1984 a'r Rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Mewnosodwyd Rhan 2A o Ddeddf 1984 gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, ac mae'n darparu sail gyfreithiol i ddiogelu'r cyhoedd rhag bygythiadau sy'n deillio o glefydau heintus.

Mae adran 45C o Ddeddf 1984 yn rhoi pŵer i'r Gweinidog priodol wneud rheoliadau er mwyn atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad. Mae'n cynnwys pwerau i osod cyfyngiadau neu ofynion ar neu mewn perthynas â phersonau, pethau neu fangreoeedd os bydd bygythiad i iechyd y cyhoedd, neu mewn ymateb iddo. Mae adran 45F yn galluogi gwneud darpariaeth atodol gan gynnwys darpariaeth ar gyfer gorfodi cyfyngiadau a gofynion a osodir o dan y Rheoliadau a chreu troseddau.

Rhoddir y swyddogaethau o dan yr adrannau hyn i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, ystyr y Gweinidog priodol, mewn perthynas â Chymru, yw Gweinidogion Cymru.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Gwneir y Rheoliadau mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd a adwaenir fel COVID-19 neu "coronafeirws".

Ers i'r cyfyngiadau a'r gofynion a osodwyd gan Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 gael eu hadolygu ddiwethaf, mae'r duedd yng Nghymru wedi parhau i waethygu o ran nifer yr achosion o COVID-19. Amcangyfrifir bod lefel yr heintiau heddiw yn 2,500, ac ar y gyfradd dwf bresennol, byddai nifer yr heintiau erbyn diwedd mis Hydref yn fwy na'r lefel brig ym mis Mawrth. Am y tro cyntaf yn ystod yr ail don hon o heintiau, mae nifer yr achosion yng Nghymru yn uwch na 100 o achosion fesul 100,000 o bobl, a mae'r canlyniadau profion positif yng Nghymru yn uwch na 7.5%. Mae'r dystiolaeth wyddonol a ddefnyddir i asesu'r risg i iechyd y cyhoedd yn cael ei darparu gan [Gell Cyngor Technegol](#) Llywodraeth Cymru ac mae ar gael ar wefan llyw.cymru.

I gydnabod hyn, ac fel rhan o'r adolygiad parhaus o'r cyfyngiadau a'r gofynion yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020, mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu gosod cyfyngiadau a gofynion am gyfnod byr, gyda'r nod o leihau'r gyfradd drosglwyddo yn gyflym a dod â'r feirws yn ôl o dan reolaeth. Gellir hefyd gael gwybodaeth am y cyfyngiadau blaenorol a'r asesiadau effaith cysylltiedig ar wefan llyw.cymru.

Cyngor Prif Swyddog Meddygol Cymru yw bod angen cymryd camau nawr os ydym am atal y GIG yng Nghymru rhag profi straen ac o bosibl gael ei orlethu. Bwriad y Rheoliadau hyn yw atal marwolaethau o ganlyniad uniongyrchol i COVID-19, a marwolaethau oherwydd nad yw gwasanaethau'r GIG ar gael gan fod y feirws wedi trosglwyddo'n eang yn y gymuned.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn pedwar maes allweddol:

- a) cyfyngu ar symud a theithio drwy ei gwneud yn ofynnol i bobl aros gartref oni bai bod ganddynt esgus rhesymol;
- b) cyfyngu ar ymgynnull gyda phobl eraill;
- c) cau mathau penodol o fusnesau a mangreoedd;
- d) gosod rhwymedigaethau ar bersonau sy'n gyfrifol am fangreoedd sy'n agored i'r cyhoedd, neu am waith sy'n cael ei gynnal mewn unrhyw fangre.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu ar gyfer gorfodi'r gofynion a'r cyfyngiadau hyn.

Mae Rhan 1 o'r Rheoliadau yn darparu bod y Rheoliadau hyn yn dod i rym am 6pm ar 23 Hydref 2020 ac yn dod i ben ddiwedd y dydd ar 8 Tachwedd 2020.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau yn gosod cyfyngiadau ar symud a theithio. Mae rheoliad 3 yn ei gwneud yn ofynnol i bobl sy'n byw yng Nghymru aros gartref, oni bai bod ganddynt esgus rhesymol dros adael. Yn ogystal, o dan yr amgylchiadau cyfyngedig pan y caniateir i bobl adael eu cartrefi, mae cyfyngiad ar bobl yn ymgynnull heb esgus rhesymol gydag unrhyw un nad yw'n rhan o'u haelwyd. Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod bod llai o risg i'r coronafeirws gael ei drosglwyddo yn yr awyr agored. Serch hynny, mae difrifoldeb y sefyllfa bresennol o ran iechyd y cyhoedd yn golygu na chaniateir i bobl nad ydynt yn rhan o'r un aelwyd ymgynnull yn yr awyr agored neu wneud gweithgareddau wedi'u trefnu yn yr awyr agored, am y cyfnod byr pan fo'r Rheoliadau hyn mewn grym. Mae'r Rheoliadau'n gwneud darpariaeth benodol bod mynd i ddiwyddiadau Sul y Cofio yn esgus rhesymol dros ymgynnull ag eraill, yn amodol ar amodau penodol. Effaith gyffredinol y darpariaethau hyn yw cyfyngu ar bobl yn symud o fewn Cymru er mwyn lleihau trosglwyddiad y coronafeirws yn y gymuned. Er mwyn peidio â thanseilio effeithiolrwydd y cyfyngiadau ar symud a theithio o fewn Cymru, mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod angen esgus rhesymol ar bobl sy'n byw y tu allan i Gymru i deithio i Gymru. Mae rheoliadau 6 a 7 yn cyfyngu ar yr amgylchiadau pan fo gan ddisgybl neu fyfyrwr esgus rhesymol dros fynd i fangre ysgol neu sefydliad addysg bellach. Mae rheoliad 9 yn gwneud darpariaeth bellach sy'n ei gwneud yn drosedd (a gosbir drwy gosb uwch) trefnu diwyddiadau cerddorol mawr sy'n annog pobl i ymgynnull yn anghyfreithlon.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau a gwasanaethau penodol y mae eu mangreoedd ar agor i'r cyhoedd fel arfer, gau. Mae Pennod 2 o'r Rhan honno yn cyfeirio at y busnesau a'r gwasanaethau hynny y mae'n rhaid i'w mangreoedd gael eu cau i'r cyhoedd, sy'n cael eu rhestru'n fanylach yn Rhan 1 o Atodlen 1 (ond mae rheoliad 11 yn ei gwneud yn glir nad yw hyn yn atal

gweithgareddau penodol rhag cael eu cynnal yn y fangre). Mae Pennod 3 yn gwneud darpariaeth ar gyfer y busnesau a'r gwasanaethau hynny y mae'n rhaid iddynt gael eu cau, ond y gall mynediad cyfyngedig iddynt gael ei ganiatáu, ac fe'u rhestrir yn fanylach yn Rhan 2 o Atodlen 1; mangreoedd sy'n gwerthu bwyd a diod (y caniateir mynediad cyfyngedig iddynt yn unol â rheoliad 12); mangreoedd sy'n cynnig llety gwesty neu lety gwyliau (y caniateir mynediad cyfyngedig iddynt yn unol â rheoliad 13); a manau addoli a manau eraill (y caniateir mynediad cyfyngedig iddynt yn unol â rheoliad 14). Mae rheoliad 15 yn darparu ar gyfer eithriad i'r gofyniad i gau sy'n gymwys i fangre busnes neu wasanaethau a restrir yn Rhan 3 o Atodlen 1. Mae rheoliad 16 yn ei gwneud yn glir na chaniateir i'r busnesau hynny a waherddir gan rheoliad 11 (ac a restrir yn Rhan 1 o Atodlen 1) barhau, pan fo mwyn nag un math o fusnes neu wasanaeth yn cael ei ddarparu yn yr un fangre.

Mae'r angen brys i reoli lledaeniad y coronafeirws yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chwsmeriaid a'r rheini lle y daw pobl i gyswllt agos â'i gilydd, gau. Mae'r rhain yn cynnwys y busnesau sy'n gwerthu nwyddau nad ydynt yn angenrheidiol, gwasanaethau cyswllt agos, twristiaeth, y sector digwyddiadau a lletygarwch (ac eithrio gwystai a mathau eraill o lety y bydd gofyn iddynt gau ond y gallai eu mangreoedd gael eu defnyddio at ddibenion eraill drwy gais neu awdurdod Gweinidogion Cymru neu awdurdodau lleol (er enghraifft i letya pobl a fyddai fel arall yn ddigartref; pobl sy'n ffoi rhag trais domestig; gweithwyr allweddol a'r rheini sy'n gweithio mewn sectorau y caniateir iddynt aros ar agor ond nad yw gweithio o gartref yn ymarferol iddynt, megis chwaraeon proffesiynol)). O dan y Rheoliadau hyn, gall y diwydiant adeiladu, gweithgynhyrchu a busnesau eraill nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â chwsmeriaid barhau i weithredu, gan gynnwys y rheini yn y gadwyn gyflenwi megis cyflenwyr adeiladwyr. Mae'r rhain yn ddiwydiannau hanfodol na ellid eu dadgyfuno, ond sy'n darparu seilwaith a gwasanaethau hanfodol ar gyfer cadwyni cyflenwi bwyd ac ynni, neu sy'n hanfodol er mwyn ymateb i argyfyngau. Bydd disgwyl i weithwyr ym mhob sector weithio o gartref lle y bo hynny'n bosibl. Yn yr un modd, caniateir i fferyllfeydd, gwasanaethau deintyddol a gwasanaethau meddygol neu iechyd eraill (gan gynnwys gwasanaethau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl) barhau ar agor yn ystod y cyfnod pan fo'r Rheoliadau mewn grym.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau yn gosod rhwymedigaethau penodol ar bersonau sy'n gyfrifol am fangreoedd sydd ar agor i'r cyhoedd, neu am waith sy'n cael ei wneud mewn unrhyw fangreoedd, er mwyn lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws. Mae rheoliad 17 yn gymwys i "mangre reoleiddiedig" (unrhyw fan sydd ar agor i'r cyhoedd neu lle y gwneir gwaith) ac yn ei gwneud yn ofynnol: (1) i bob mesur rhesymol gael ei gymryd i sicrhau y cedwir pellter o 2 fetr rhwng personau yn y fangre; (2) i unrhyw fesurau rhesymol eraill gael eu cymryd – er enghraifft er mwyn cyfyngu ar ryngweithio wyneb yn wyneb agos a chynnal hylendid; a (3) i wybodaeth gael ei darparu i'r rheini sy'n mynd i fangre neu sy'n gweithio ynddi ynghylch sut i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws. Mae Rhan 4 yn pennu y gall peidio â gwneud gweithgaredd, cau rhan o fangre a chasglu gwybodaeth gyswllt oddi wrth y rheini yn y fangre fod yn fesurau rhesymol. Mae rheoliadau 18 ac 19 yn darparu bod rhaid gwisgo gorchuddion wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus (gan gynnwys tacsis) ac mewn manau penodol o dan do, yn ddarostyngedig i esemptiadau ac eithriadau a restrir. Mae rheoliad 20 yn darparu i ganllawiau gael eu cyhoeddi ynghylch

cymhwysu'n ymarferol y gofynion a osodir gan y Rhan hon, a rhaid i'r rheini y mae'r gofynion yn gymwys iddynt roi sylw i'r canllawiau hynny.

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau'n ymwneud â gorfodi'r cyfyngiadau a'r gofynion. Mae rheoliad 21 yn gwneud darpariaeth ynghylch y rheini a gaiff gymryd camau gorfodi, mae rheoliad 22 yn gwneud darpariaeth bellach (yn Atodlenni 2 a 3) ynghylch gorfodi'r angen i gymryd mesurau ataliol o dan reoliad 17; mae rheoliad 23 yn ymwneud â hysbysiadau cydymffurfio, ac mae rheoliad 24 yn ymwneud â phwerau i waredu neu wasgaru. Mae rheoliad 25 yn ymwneud yn benodol â gorfodi'r gofyniad i wisgo gorchudd wyneb, ac mae rheoliad 26 yn ymwneud â phlant. Mae rheoliad 27 yn cynnwys pŵer i fynd i fangre ac mae rheoliad 28 yn caniatáu defnyddio grym rhesymol o dan amgylchiadau penodol.

Mae Rhan 6 o'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth ynghylch troseddau a chosbau. Mae rheoliad 29 yn darparu bod person sy'n torri'r gofynion (a restrir) yn y Rheoliadau hyn heb esgus rhesymol, yn cyflawni trosedd. Y gosb am y drosedd honno yw dirwy diderfyn. Mae rheoliad 30 yn ymwneud â throseddau gan gyrrff corfforedig. Mae rheoliad 31 yn caniatáu i droseddau gael eu cosbi drwy hysbysiadau cosb benodedig ac mae rheoliad 32 yn ymwneud ag erlyn troseddau o dan y rheoliadau.

Yn olaf, mae Rhan 7 yn cynnwys termau wedi'u diffinio ac yn dirymu Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Rhif 2) 2020 a'r offerynnau diwygio cysylltiedig. Mae rheoliad 33 hefyd yn gwneud darpariaeth sy'n addasu'r cyfyngiadau niferus ar unigolion yn y Rheoliadau sy'n cyfyngu ar ryngweithio ag unrhyw un nad yw'n aelod o'u haelwyd. Yn yr un modd ag yn achos yr ardaloedd diogelu iechyd lleol blaenorol a sefydlwyd o dan y Rheoliadau blaenorol, o dan y Rheoliadau hyn, caniateir i berson sy'n byw ar ei ben ei hun neu gyda phlant yn unig ffurfio aelwyd estynedig gydag aelwyd arall, sy'n golygu y gall aelodau'r ddwy aelwyd ryngweithio gyda'i gilydd fel pe baent yn aelodau o'r un aelwyd. Bydd hyn yn helpu i leihau'r effeithiau ar aelwydydd un oedolyn o ran teimlo'n ynysig neu'n unig.

Mae'n hollbwysig cymryd pob cam rhesymol i reoli'r cynnydd yn nhrosglwyddiad y coronafeirws. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

5. Ymgynghori

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Fodd bynnag, wrth benderfynu ar yr angen am y cyfyngiadau a'r gofynion a amlinellir yn y Rheoliadau hyn, a'u manylion, cymerais i, ynghyd â Gweinidogion eraill a swyddogion Llywodraeth Cymru, ran mewn cyfres o drafodaethau brys gyda sectorau a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys llywodraeth leol ac arweinwyr busnes ac undebau llafur yng Nghymru. Cyhoeddais yn fy nghynhadledd i'r wasg ar 19 Hydref fwrriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r newidiadau a gyflawnir yn y Rheoliadau hyn, ac adroddwyd am hynny yn eang wedyn.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac eraill

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ddelio â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

Mae crynodeb o'r asesiad effaith integredig wedi'i baratoi a bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan LLYW.cymru.